# FGM: Mae dy gorff yn eiddo i TI.

SAFETY, TRUST AND RESPECT
DIOGELWCH, YMDDIRIED A PHARCH



Mae FGM yn sefyll am 'female genital mutilation'. Mae FGM yn digwydd pan mae rywun arall yn anafu neu dorri bant rhan, neu'r cyfan, o organau cenhedlu merched, heb unrhyw reswm meddygol. Mae yna lefelau gwahanol o doriadau ond mae pob un yn achosi poen a gofid, a gall gael effaith sylweddol, gydol oes ar iechyd corfforol a meddyliol.
Mae rhai teuluoedd yn dweud wrth eu merched bydd FGM yn eu 'hamddiffyn' rhag cywilydd, ac y bydd cael eu 'torri' yn eu helpu i gael bywyd hapus.
Beth bynnag yw'r rheswn sy'n cael ei roi, **cam-drin yw FGM a nid yw BYTH yn iawn.**

**Does dim cywilydd o gwbl yn dy gorff, yn union fel y mae. Dyma sut y ces di dy wneud.**

**Does dim cywilydd mewn peidio â bod eisiau mynd trwy boen diangen.**

**Ni ddylai cam-drin a thrais byth gael ei annog, ac nid yw'n cyfrannu at hapusrwydd.**

**Cam-drin yw pob math o FGM, ac mae'n anghyfreithlon yn y DU.**

**Mae gan bawb hawl i fod yn ddiogel a chael ei amddiffyn rhag niwed ac ofn, yn enwedig gan y rhai rydyn ni'n eu caru ac sy'n dweud eu bod nhw'n ein caru ni.**

**Os wyt ti wedi cael FGM, neu dy fod yn meddwl dy fod mewn perygl o gael FGM,**
**Mae help ar gael bob amser! Nid wyt ti ar dy ben dy hun.**

## Wedi cael FGM?

### Cymorth a chyngor

**Siarada â chwnselydd o NSPCC trwy:**

**Ffonio 0800 028 3550 (llinell gymorth FGM 24/7)**
**E-bostio fgmhelp@nspcc.org.uk**
**Neu ymweld a'u gwefan er mwyn siarad ar-lein**

***Byddwn nhw'n gallu siarad â ti am ba gamau rwyt ti eisiau cymryd, a rhoi gwybod i ti sut a ble i gael cefnogaeth addas.***

**Os wyt ti mewn poen neu'n teimlo'n sâl, mae'n bwysig bod ti'n cael cymorth meddygol:**
**Gelli di ffonio'r meddyg, neu os nad wyt ti'n siŵr beth i'w wneud, ceisia ffonio llinell gymorth 24/7 GIG 111 Cymru trwy ddeialu 111 neu 0845 46 47.**

**Mewn argyfwng, ffonia 999.**


## Poeni y gall FGM ddigwydd i ti neu rywun ti'n nabod?

**Efallai dy fod yn teimlo dan bwysau i gael FGM. Efallai dy fod yn poeni y byddi'n siomi dy deulu os na chei di dy 'dorri'. Efallai bod rywun wedi dweud wrthyt ti bod 'anrhydedd' y teulu yn dibynnu arno. Dyw hyn ddim yn iawn.**

**Dyw FGM byth yn iawn.**
**Mae gen ti'r hawl i fod yn saff a chael help.**

**Gall siarad â rhywun am dy ofid fod yn frawychus. Efallai dy fod yn poeni y bydd dy rhieni mewn trafferth, neu y bydd dy deulu a dy gymuned yn troi yn dy erbyn. Mae'n arferol teimlo fel hyn.**

**Gweler isod sut i gael help a chyngor.**




**NSPCC - Llinell Gymorth FGM - 0800 028 3550 -** E-bost **fgmhelp@nspcc.org.uk - Siarad ar-lein.**
**BAWSO - 0800 731 8147 -** Gwybodaeth, cyngor, a chymorth ar gyfer pobl o ethnigrwydd lleiafrifol.
**Daughters of Eve - tecstio 07983 030 488 -** maent yn hyrwyddo ac amddiffyn hawliau iechyd corfforol, meddyliol, rhywiol ac atgenhedlu pobl ifanc o gymunedau sy'n ymarfer FGM. Dolen **yma**.
**Petals** - lawrlwytha 'ap' ar gyfer pobl ifanc sydd â gwybodaeth am FGM **yma**.
**Everybody's Business** - gwefan gan bobl ifanc am FGM ar gyfer pobl ifanc. Dolen **yma.**

Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid